

Capel Got Talent

Bwriedir cynnal Capel Got Talent yn Capel Coch unwaith eto yn dilyn llwyddiant y noson arbennig a gafwyd y llynedd. Manylion pellach i ddilyn.

gronyn.org

Os ydych yn defnyddio'r We, cofiwch bod modd darllen *Gronyn* bob wythnos ar wefan yr Ofalaeth. Mae honno'n rhoi gwybodaeth am holl gyfarfodydd ac oedfaon yr eglwysi o ddydd i ddydd. Mae'n ddigon rhwydd dod o hyd iddi - neu

www.gronyn.org
gronyn.wordpress.com

Mae lluniau o wasanaeth Nadolig Capel Coch wedi ei gosod ar y wefan neithiwr a diolch i'r sawl a'u hanfonodd ataf. Os oes lluniau ar gael o wasanaeth Nadolig Deiniolen anfonwch nhw ataf i john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan Henaduriaeth

Cofiwch hefyd bod gan Henaduriaeth Arfon wefan erbyn hyn. Mae hon yn

cynnwys gwybodaeth am holl eglwysi'r Henaduriaeth, yn cynnwys eglwysi'r Ofalaeth hon.

Cyfeiriad y wefan honno yw www.henaduriaetharfon.org

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Ionawr 22: Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 26: Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir gan y Canon Idris Thomas am 5.00 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fercher, Ionawr 22: Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 26: Cynhelir Oedfa Deulu am 10.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog a Mrs Susan Williams; a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

REHOBOTH

Dydd Sul, Ionawr 26: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Y mis nesaf - Deiniolen

Ionawr 19

10.00 a.m. - Gwasanaeth Teulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Ionawr 26

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas
Deiniolen

Chwefror 2

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Y mis nesaf - Llanberis

Ionawr 19

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Reuben Roberts

Ionawr 26

10.30 a.m. - Gwasanaeth Teulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Chwefror 2

10.00 a.m. - Mr John H Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr John H Hughes



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 575- Dydd Sul, 19 Ionawr, 2014

'V' yr Ibsiaid

Yr wythnos ddiwethaf cyhoeddodd gwyddonwyr o'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol yn Llundain ganlyniadau eu hymchwil i batrwm hedfan astrus haid o ibisiaid. Mae'r canlyniadau'n cynnig esboniad gwyddonol i arfer yr adar hyn o hedfan mewn haid gydag un aderyn ar y blaen a'r gweddill yn ei ddilyn gan ffurfio siâp y llythyren V yn yr awyr.

Roedd yn hysbys cyn hyn bod rhai mathau o adar (a'r rheiny os deallais yn iawn yn adar ag adenydd mawr, fel gwyddau a phelicanod) yn hedfan mewn heidiau ar ffurf V, a bod a wnelo erodynameg â hynny. Ond ni allai neb esbonio'n iawn sut yn union yr oedd yr adar yn gallu gwneud hynny. Mae'r gwyddonwyr hyn a fu'n astudio patrwm hedfan haid o 14 o ibisiaid ifanc yn honni eu bod wedi datrys y dirgelwch hwn o'r diwedd.

Rwy'n ofni bod rhaid i chi dderbyn fy ngair pan ddywedaf i mi ddarllen rhan o'r adroddiad a gyhoeddwyd yn rhifyn diweddaraf cylchgrawn o'r enw *Nature*. Oherwydd, er mor ddiddorol ydoedd, fedraf fi ddim honni fy mod wedi deall yr esboniad yn union. Ac yn sicr wnaif fi ddim ceisio'i egluro i chi rhag i chi a minnau fynd i'r gors yn lân. Ond yr hyn sy'n amlwg, yn ôl canlyniadau'r ymchwil hwn, yw bod yr adar unigol yn ymateb i symudiadau'r adar eraill ac yn eu gosod eu hunain yn y man mwyaf ffafriol o fewn yr haid, gan amseru chwifiad eu hadenydd er mwyn medru manteisio'n llawn ar symudiad yr awyr, a hedfan yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Peidiwch â gofyn i mi egluro yn fwy manwl! Mae'n ddigon posibl nad wyf wedi deall cymaint â hynny'n gwbl gywir. Ond yr hyn sy'n amlwg yw gogoniant byd natur, a rhyfeddod creadigaeth Duw. Mae ymchwil y gwyddonwyr yn dangos mor astrus a chymhleth a phrydferth y gwnaed adar yr awyr a phopeth arall sy'n rhan o'r creadigaeth. Mae gwyddonwyr yn defnyddio'u gwybodaeth a'u dawn i ymchwilio i bethau dirgel y Cread, ac i esbonio'r cyfan sy'n digwydd o'n cwmpas. Ac mae eu hymchwil yn aml iawn yn datgelu mawredd a rhyfeddod y byd a greodd Duw. Ac un rhan fechan o'r rhyfeddod hwnnw yw'r modd y mae'r adar hyn yn gwneud y defnydd gorau o lif yr awyr a lleoliad yr adar eraill o fewn yr haid.

Ia, un rhan fechan ond hynod iawn o'r creadigaeth yw patrwm hedfan ibisiaid ac adar eraill. Ac mae cant a mil o greaduriaid eraill wedi eu creu yr un mor brydferth ac astrus. Ac o'u gweld, ac o ddysgu mwy a mwy am ddigelwch y cyfan sydd o'n cwmpas, sut all neb beidio â chredu bod llaw gelfydd Creawdwr y tu ôl i'r cyfan? Mae'n anodd deall sut all pobl wadu bodolaeth a gallu Duw'r Creawdwr o gofio mor gymhleth a rhyfeddol y'n gwnaed ni a holl greaduriaid y ddaear.

A beth ddywedodd Iesu am yr adar? Os yw Duw, a'u creodd mor gywain, yn bwydo'r adar, gallwn ninnau gredu y bydd yn ein cynnal ni am ein bod yn llawer mwy gwerthfawr yn ei olwg.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso i oedfaon Sul cyntaf y flwyddyn newydd. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad trwy'r dydd a thrwy'r flwyddyn ar ei hyd.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr Euron Hughes. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. A gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Reuben Roberts. Diolch i'r ddau am eu gwasanaeth.

Byddaf fi'n arwain yr Oedfaon Deulu yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch, a'r oedfa am 5.00 o'r gloch wedyn.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at dri o Lanberis sydd yn Ysbyty Eryri, sef Mrs Rita Morris, Maes Padarn; a Mr Myrddyn Pritchard a Mrs Annie Pritchard, 1 Ffordd Padarn, Llanberis. Dymunwn yn dda i bawb arall sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Cymdeithas Undebol

Yn y Gymdeithas Undebol yn Llanberis nos Fawrth diwethaf cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol gan y Prifardd Ieuan Wyn, Bethesda ar y testun, 'Tywysogion Gwynedd a'u Hetifedd'. Diolchwyd yn gynnes iddo gan Miss Marion Davies.

Dosbarth Beiblaidd

Bydd Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn ail ddechrau yn Yr Haciau ym Mhenisarwaun am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Ionawr 22.

Pwyllgor Efe

Cynhaliwyd Pwyllgor Ymddiriedolwyr Cynllun Efe yn Capel Coch nos Lun, Ionawr 13. Mae'r pwyllgor hwn yn cyfarfod bob tri mis i gadw golwg ar drefniadau ariannol a gweinyddol y Cynllun. Mae llawer o'r gwaith yn cael ei wneud gan y swyddogion, sef yr Ysgrifennydd, Mrs Susan Williams, Ceunant, ac yn arbennig y Trysorydd a'r Ysgrifennydd Ariannol, Mr Clive James, Caeathro. Diolch iddynt am eu gwaith caled ar ran Cynllun Efe.

Rehoboth

Mae aelodau Rehoboth, Nant Peris wedi penderfynu cynnal un oedfa'r mis fyn unig yn Rehoboth yn ystod 2013 ac ymuno â'r addoliad yn Capel Coch ar y Suliau eraill. Edrychwn ymlaen at gael eu cwmni yn Capel Coch mor aml â phosibl.

Cynhelir yr oedfa yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch ar y Suliau canlynol. Os bydd unrhyw newid i'r rhestr hon caiff ei hysbysu mewn da bryd yn *Gronyn*.

Ionawr 26
Chwefror 9
Mawrth 9
Ebrill 13

Mai 11
Mehefin 8
Gorffennaf 13
Medi 14
Hydref 12
Tachwedd 9
Rhagfyr 14

CIC

Daeth criw da o hogia i CIC yn Capel Coch echnos. Hwn oedd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd, ac roedd yn braf gweld pawb yn ôl eto.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter nesaf Annibynwyr Gogledd Arfon dan nawdd eglwys Saron, Llanwnda nos Fercher, Ionawr 29.

Sylwch mai yn Ysgol Felinwnda ac nid yn y capel y bydd y cyfarfod hwn.

Yn y Gyfeillach yn ail ran y cyfarfod byddaf fi'n arwain gwasanaeth y Cymun.

Pwyllgor

Cyfarfu Swyddogion Ebeneser â Grŵp Datblygu Deiniolen yn Nhy Elidir fore Mawrth diwethaf i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau'r Grŵp i geisio grantiau i ddatblygu adeiladau Ebeneser yn ganolfan gymunedol ac addoli. Mae llawer o waith wedi ei wneud yn barod gan y Grŵp, ac os bydd y bwriadau yn dwyn ffrwyth gan fod o fudd mawr i'r eglwysi.

Cymdeithas Undebol

Cynhelir cyfarfod nesaf Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhy Elidir am 7.00 o'r gloch wythnos oi nos yfory, nos Lun, Ionawr 27. Y gwr gwadd fydd Mr Gareth Roberts, Deiniolen, a thestun ei sgwrs fydd, 'Hanes Lleol Deiniolen'. Bydd croeso cynnes i bawb.

Banc Bwyd

Mae llond bocs arall o fwyd wedi ei anfon o Capel Coch i'r Banc Bwyd yng Nghaernarfon. Diolch am eich haelioni dros y flwyddyn ddiwethaf ac edrychwn ymlaen at allu parhau i gefnogi'r gwaith hwn y flwyddyn nesaf yma. Mae trefnwyr y Banc Bwyd yn ddiolchgar am ein cefnogaeth.

Dyma'r math o bethau a dderbynnir: Llefriith UHT neu bowdr - Siwgr - Sudd ffrwythau - Cawl tun - Pasta - Tuniau tomatos - Grawnfwyd - Siocled - Tuniau pwdin reis - Bagiau te - Coffi - Reis - Powdwr tatws stwnsh - cig tun - jam - ffrwythau tun - bisgedi.

Amlenni casglu

Os oes unrhyw un o aelodau Capel Coch angen rhagor o amlenni casglu ar gyfer eu cyfraniadau rheolaidd at yr Achos rhowch wybod i'r Trysorydd, Mr Colin Jones neu unrhyw un o'r swyddogion os gwelwch yn dda. Cyfeiriad a rhif ffôn Colin yw Bryn Gelli, Gellihirbant, Llanberis -01286 871150.

Gall aelodau eglwysi eraill yr Ofalaeth gysylltu â swyddogion eu heglwys hwy hefyd os ydynt angen amlenni casglu.

Cyfraniadau

Ar ddechrau blwyddyn newydd, wrth ddiolch am bob cyfraniad ariannol a gafwyd y llynedd at waith eglwysi'r Ofalaeth dyma gyfle hefyd i'ch gwahodd i barhau i gefnogi'r gwaith yn ystod y flwyddyn newydd.

Gwn y byddai trysoryddion yr eglwysi yn falch iawn o dderbyn cyfraniadau rheolaidd yn wythnosol neu yn fisol un ai trwy'r amlenni casglu neu trwy'r banc. Mae cyfraniadau rheolaidd yn hwyluso pethau i'r eglwysi gan sicrhau bod arian digonol o fis i fis ar gyfer cynnal yr holl waith.